




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Arweiniad ar wirio a chymradwyo

Canllaw ar gyfer gweithwyr
gofal cymdeithasol
proffesiynol a cyflogwyr



Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 02920 780646
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: ympolidau@gofal.cymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)
© 2020 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

Bydd y canllaw hwn yn esbonio'r broses wirio a chymeradwyo ar gyfer ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr), ac adnewyddu'r cofrestriad.

Gallwch glicio ar y penawdau isod i ddarllen pob adran.

Cymeradwyo ffurflenni

- 1.1 Beth mae cymeradwyo yn ei olygu?.....3
- 1.2 Pwy sydd angen cymeradwyaeth?.....3
- 1.3 Pwy ddylai cymeradwyo?.....3
- 1.4 Sut caiff cymeradwyo ei gwblhau?.....6

Gwirio dogfennau

- 2.1 Pwy sydd angen cael ei ddogfennau wedi'i wirio wrth wneud cais?.....7
- 2.2 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i adnewyddu cofrestriad?.....8
- 2.3 Pwy sy'n gallu bod yn wiriwr?.....8
- 2.4 Beth sydd angen i wiriwr ei wneud?.....9
- 2.5 Sut mae dogfennau'n cael eu hanfon atom ni?.....9

Dolenni defnyddiol

Cysylltwch â ni:
cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru

Dysgwch fwy yn: gofalcymdeithasol.cymru

Ewch i'r cyfrif GCCarlein:
www.scwonline.wales/cy/

Cymeradwyo

1.1 Beth mae cymeradwyo yn ei olygu?

Mae cymeradwyo yn golygu bod cais unigolyn i gofrestru neu adnewyddu ei gofrestrriad yn cael ei gefnogi. Mae'n cadarnhau bod y wybodaeth y mae'r unigolyn wedi rhoi i ni yn gywir, ac nad oes unrhyw bryderon o ran ei gymeriad, ei gymhwysedd neu ei addasrwydd i ymarfer, ac felly gallwn ni ystyried bod yr unigolyn yn addas i gofrestru â ni.

1.2 Pwy sydd angen cymeradwyaeth?

Ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr

Y grwpiau o weithwyr y mae angen cymeradwyo eu ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr yw:

- rheolwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal cartref
- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu
- rheolwyr lleoli oedolion
- rheolwr canolfan breswyl i deuluoedd
- gweithwyr cymdeithasol (gan gynnwys ymgeiswyr sydd newydd gymhwyso ac ymgeisiwyr sydd wedi chymhwyso y tu allan i'r DU).

Nid oes angen cymeradwyaeth i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol.

Ceisiadau i adnewyddu cofrestrriad

Bydd angen cymeradwyo ceisiadau gan weithwyr gofal cartref, gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a gweithwyr gofal preswyl i blant i adnewyddu eu cofrestrriad.

Byddwn ni'n anfon gwahoddiad i unigolion cofrestredig i adnewyddu eu cofrestrriad 86 diwrnod cyn diwedd eu cyfnod cofrestru o dair blynedd. Rhaid i bob cais i adnewyddu cofrestrriad gael eu cwblhau ar-lein yn GCCarlein.

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen gyflawn wedi'i gymeradwyo gyda'r ffi llawn o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad adnewyddu.

Nid yw myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn adnewyddu eu cofrestrriad.

1.3 Pwy ddylai cymeradwyo?

Dylai cymeradwyr:

- bod yn llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y sefydliad
- fod yn berson mewn rôl uwch
- pan fo modd, fod wedi gwneud gwiriad heddlu fel DBS
- fod yn weithiwr proffesiynol **nad yw'n perthyn, neu mewn perthynas bersonol gyda'r ymgeisydd.**

Gall llofnodwyr:

- cymeradwyo ceisiadau
- gwirio dogfennau
- gwirio cofnodion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)
- helpu i gynnal Cofrestr gyfoes.

Mae gwybodaeth am fod yn llofnodwr ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae'r tablau ar y tudalennau canlynol yn dangos pwy ddylai cymeradwyo.

Mae'r ymgeisydd...	Dylai'r cymeradwywr fod yn...
Yn cael ei gyflogi ym maes gofal cymdeithasol	Llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y sefydliad. Os yw'r ymgeisydd yn gweithio mewn mwy nag un swydd gofal cymdeithasol, bydd angen llofnodwyr o'r ddau sefydliad i gymeradwyo'r cais.
Yn hunangyflogedig ym maes gofal cymdeithasol neu yn gyflogedig gan aelod o'u teulu	Dau uwch gynrychiolydd o gyflogwyr gofal cymdeithasol gwahanol – mae angen i un ohonynt lenwi'r adran cymeradwyo ar llall i gydlofnodi fel ail gymeradwywr. Mae'n rhaid i'r ddau gymeradwywr adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd.
Wedi cyflogi ym maes gofal cymdeithasol gan asiantaeth gyflogi	Y llofnodwr cymeradwy ar gyfer yr asiantaeth gyflogi.
Yn gweithio ar secondiad	Llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y cyflogwr gwreiddiol a'r llofnodwr ar gyfer y cyflogwr secondiad. Mae'n rhaid i'r ddau gyflogwr cael eu cofnodi fel 'cyflogaeth bresennol'.
Gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso	Os yw'r ymgeisydd wedi cyflogi ym maes gofal cymdeithasol, llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y sefydliad. Os nad yw'r ymgeisydd wedi cael swydd ym maes gofal cymdeithasol eto, llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y cwrs gwaith cymdeithasol.
Yn ddi-waith	Mae'r opsiynau canlynol ar gael: Naill ai 1. Cyflogwr gofal cymdeithasol diweddaraf yr ymgeisydd, os oedd wedi'i gyflogi o fewn y tair blynedd diwethaf, neu 2. Llofnodwr cwrs gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol yr ymgeisydd, os oedd wedi cwblhau'r cwrs o fewn y tair blynedd diwethaf, neu 3. Person uwch o gyflogwr gofal cymdeithasol, neu 4. Perchennog neu reolwr busnes gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni ac sy'n gyfarwydd gyda gwaith yr ymgeisydd ac Ail gymeradwyaeth gan unigolyn proffesiynol sydd yn gallu darparu geirda cymeriad ac addaswydd i gofrestru. Gall yr unigolyn proffesiynol fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig, ynad, cyfreithiwr, meddyg neu brifathro. Mae'n rhaid i'r person yma adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd. Os nad yw'r unigolyn yma yn llofnodwr, ni ellir cymeradwyo'r cais, ond gellir darparu geirda cymeriad i gyd-fynd â'r cymeradwyaeth cyntaf o'r rhestr uchod. Dylid cynnwys ei gyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn ac esboniad o sut ydynt yn adnabod yr ymgeisydd. Os caiff yr ymgeisydd swydd ym maes gofal cymdeithasol tra'n wneud cais, bydd angen cymeradwyaeth pellach gan lofnodwr y sefydliad yna. Bydd rhaid i'r ymgeisydd brintio'r cais cyflawn er mwyn i'r cymeradwyaeth cael ei wneud wrth law.

Mae'r ymgeisydd...	Dylai'r cymeradwywyr fod yn...
Wedi cyflogi tu allan i faes gofal cymdeithasol	<p>Os oes angen i'r ymgeisydd cofrestru, ac maent yn medru bodloni ein gofyniadau adnewyddu, mae'r dewisiadau canlynol ar gael:</p> <p>Naill ai</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflogwr gofal cymdeithasol diweddaraf yr ymgeisydd, os gwnaethant ei gyflogi o fewn y tair blynedd diwethaf, neu 2. Llofnodwr cwrs gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol yr ymgeisydd, os oeddent wedi cwblhau'r cwrs o fewn y tair blynedd diwethaf, neu 3. Person uwch o gyflogwr gofal cymdeithasol, neu 4. Perchennog neu reolwr busnes gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda ni ac sy'n gyfarwydd â gwaith yr ymgeisydd <p>Ac</p> <p>Ail gymeradwyaeth gan gyflogwr presennol yr ymgeisydd y tu allan i faes gofal cymdeithasol, eu hasiantaeth gyflogi neu unigolyn proffesiynol sydd yn gallu darparu geirda cymeriad ac addasrwydd i gofrestru. Gall y person yma, er enghraifft, fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig, ynad, cyfreithiwr, meddyg neu brifathro. Mae'n rhaid i'r person yma adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd.</p> <p>Os nad yw'r unigolyn yma yn llofnodwr, ni ellir cymeradwyo'r cais, ond gellir darparu geirda cymeriad i gyd-fynd â'r cymeradwyaeth cyntaf o'r rhestr uchod. Dylid cynnwys ei gyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn ac esboniad o sut ydynt yn adnabod yr ymgeisydd.</p> <p>Os caiff yr ymgeisydd swydd ym maes gofal cymdeithasol wrth wneud cais, bydd angen cymeradwyaeth pellach gan lofnodwr y sefydliad yna.</p>
Yn weithiwr cymdeithasol sydd wedi hyfforddi neu gymhwyso y tu allan i'r DU	Mae canllawiau penodol ar gael i'r rheiny a gymhwysodd y tu allan i'r DU.

Os ydych chi'n gwneud cais i gofrestru gyda ni, ac hefyd yn unigolyn cyfrifol wedi'i reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru, cysylltwch â'r tîm cofrestru i gael arweiniad ar yr ardystiad sydd angen ar gyfer eich cais.

1.4 Sut caiff cymeradwyo ei gwblhau?

Bydd y cais trwy GCCarlein yn gofyn i'r ymgeisydd ddewis cymeradwywr oddi ar restr o'n llofnodwyr cymeradwy ar gyfer eu sefydliad neu eu prifysgol. Os bydd yr ymgeisydd yn dewis o'r rhestr hon ac yn cyflwyno'r ffurflen, caiff ei rhannu'n awtomatig â'r cymeradwywr a ddewiswyd. Byddant yn derbyn e-bost sy'n gofyn iddyn nhw weld a chymeradwyo'r cais.

Os nad yw'r cymeradwywr yn un o'n llofnodwyr cymeradwy, bydd angen i'r ymgeisydd argraffu'r ffurflen ac (os bydd angen) y cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, a gofyn i'r cymeradwywr lenwi'r adrannau cymeradwyo wrth law. Bydd angen i'r ymgeisydd sganio'r ffurflen sydd wedi ei gymeradwyo a'r copiâu printiedig hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru a wiriwyd a'u uwchlwytho i'w gyfrif GCCarlein.

I wneud hyn, mae angen mewngofnodi i GCCarlein a dewis 'Fy Manylion Cyswllt', wedyn 'Llwytho dogfen' o'r ddewislen. Efallai y byddwn yn cysylltu â'r cymeradwywr i gadarnhau mai ef/hi a lofnododd y ffurflen a chadarnhau pwy ydynt.

Rhaid i'r cymeradwywr:

- darllen y cais a gwneud yn siwr bod y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn cyd-fynd â'i wybodaeth nhw, gan gynnwys gwybodaeth ddisgyblu ac addasrwydd i ymarfer. Ni fydd cymeradwywr yn gweld unrhyw ddatganiad iechyd na gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth mae'r ymgeisydd wedi'i rhoi i ni fel rhan o'i gais
- gwirio'r ffurflen yn erbyn y cofnod cyflogaeth / myfyriwr
- cadarnhau dyddiad y gwiriad diweddaraf DBS y maent wedi'i gynnal fel rhan o'u cyflogaeth gyda nhw/cwrs gwaith cymdeithasol
- cwblhau'r wybodaeth angenrheidiol yn eu cyfrif GCCarlein i gadarnhau eu bod yn cymeradwyo'r ymgeisydd
- gwirio'r cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, os bydd angen.

Byddwn yn anfon e-bost i'r cymeradwywr i'w atgoffa bod ffurflen yn aros i gael ei chymeradwyo bob saith diwrnod nes bydd y cymeradwyaeth wedi'i gwblhau.

Ni allwn brosesu cais os nad yw'r holl adrannau yn gyflawn, gan gynnwys cymeradwyaeth a thaliad.

Er ein bod yn anfon y nodiadau atgoffa, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwneud yn siwr bod y ffurflen, gan gynnwys y cymeradwyaeth, yn gyflawn. Ni fydd unrhyw ffurflenni anghyflawn yn cael eu prosesu a gallai hyn olygu y bydd y cais i gofrestru yn cau neu gofrestriad yn dod i ben adeg adnewyddu.

Hygyrchedd y safle: A Cynyddu maint y testun

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Cymraeg English Cymorth Mewngofnodi

Gwneud Cais | Gymeradwyo | Gwirio'r Gofrestr | Gwneud Cais i Gofrestru | Cofrestr Dros Dro o Weithwyr Cymdeithasol

Croeso i GCCarlein

GCCarlein yw lle gallwch wneud cais i gofrestru a rheoli eich cofrestradau gan ddefnyddio ffôn, cyfrifiaduwr personol neu lechen. Mae cyflogwyr, sy'n hysbys i ni fel llofnodwyr, heli'yd yn defnyddio'r wefan.

Wrth ddefnyddio GCCarlein, rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Google Chrome neu borwr cyfocs eraill h.y. Internet Explorer 11. I gael mwy o wybodaeth am y pwrnc hwn ewch i'r dudalen gymorth.

Os oes angen i chi gwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd cyn gwneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol, ewch i <https://www.fframwaithsefydlu.cymru/>

Ar ôl i chi gyflwyno cais i gofrestru neu adnewyddu eich cofrestriad, os oes unrhyw wybodaeth ar goll, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost. Gwirwch eich e-byst yn rheolaidd, gan gynnwys eich ffolderau Junk / Sbam.

I gael cefnogaeth wrth ddefnyddio'r wefan neu os oes gennych gwestiynau ynghyd â'r broses gofrestru, ewch i'n **wefan** neu e-bostwch ymhladdau@gofalcymdeithasol.cymru gyda'ch cwestiwn.

Angen gwybod....

Coronafirws a'n gwaith: ein nod yw darparu gwasanaeth fel yr arfer ble'n bosib, ond bydd cyflymder ein hymateb yn lleihau wrth i ni symud i'n ffordd newydd o weithio. Bydd GCCarlein yn dal i fod ar gael yn ystod yr amser hwn.

Mae atebion i gwestiynau a allai fod gennych ynghyd â sut yr ydym yn gweithio yn ystod yr achosion o coronafirws a sut y gallai hyn effeithio arnoch yn cael eu postio ar ein prif wefan: [Coronafirws a sut y gallai yn effeithio arnoch chi](#).

Byddwn ni'n adolygu a diweddarau ein gwasanaethau pan fydd cyhoeddiadau newydd gan Lywodraethau Cymru a'r DU i

Gwirio

2.1 Pwy sydd angen cael ei ddogfennau wedi'i wirio wrth wneud cais?

Bydd angen i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddarparu rhyw fath o ddogfennau wedi'u gwirio i ni. Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom ni.

Defnyddiwch y tabl i weld pa ddogfennau sydd eu hangen arnoch chi fel rhan o'r broses ymgeisio.

Os ydych chi'n ymgeisio fel: <ul style="list-style-type: none"> - gweithiwr cymdeithasol wedi cymhwyso cyn Medi 2007 - gweithiwr cymdeithasol wedi cymhwyso gyda gradd o fewn y DU, ond tu allan i Gymru - rheolwr (nid unigolyn cyfrifol) neu weithiwr gofal preswyl i blant - rheolwr (nid unigolyn cyfrifol) neu weithiwr gofal cartref - rheolwr (nid unigolyn cyfrifol) neu weithiwr cartrefi gofal i oedolion 			<ul style="list-style-type: none"> - rheolwr canolfan breswyl i deuluoedd - rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu - rheolwyr lleoli oedolion
<p>➔ Rydw i wedi cael gwiriad DBS o fewn y tair blynedd ddiwethaf / Rydw i ar wasanaeth diweddarau'r DBS</p> <p>Mae angen copïau o'ch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tystysgrif cymhwyster 	neu	<p>➔ Nid wyf wedi cael gwiriad DBS o fewn y tair blynedd ddiwethaf</p> <p>Bydd angen copi wedi'i ddilysu o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich tystysgrif geni • eich adnabod ffotograffig a chopi o'ch • cymhwyster. 	

Os ydych chi'n ymgeisio fel: <ul style="list-style-type: none"> - rheolwr sydd hefyd yn unigolion cyfrifol gyda Arolygiaeth Gofal Cymru <p>Mae angen copi o'ch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tystysgrif cymhwyster.
--

Os ydych chi'n ymgeisio fel: <ul style="list-style-type: none"> - myfyriwr gwaith cymdeithasol - gweithiwr cymdeithasol wedi cymhwyso yng Nghymru gyda gradd <p>Nid oes angen unrhyw ddogfennau wedi'u gwirio gennych chi. Mae eich prifysgol yn cadarnhau eich adnabyddiaeth yn ystod eu proses gofrestru.</p>
--

Os ydych chi'n ymgeisio fel: <ul style="list-style-type: none"> - gweithiwr cymdeithasol wedi cymhwyso y tu allan i'r DU <p>Mae angen copïau wedi'u gwirio o'ch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tystysgrif cymhwyster • tystysgrif geni • adnabyddiaeth ffotograffig <p>(Gweler ein wefan am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio)</p>

Mathau o adnabyddiaeth ffotograffig derbynniol yw: <ul style="list-style-type: none"> • tudalen ffotograffig eich pasbort • trwydded yrru ffotograffig 	<ul style="list-style-type: none"> • cerdyn adnabod gwaith ffotograffig • cerdyn adnabod ffotograffig o un o Luoedd Arfog Prydain • cerdyn adnabod ffotograffig cenedlaethol (gwledydd yr UE yn unig)
---	--

2.2 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i adnewyddu cofrestriad?

Tystysgrifau cymhwyster

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd wedi cofrestru gyda'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol (SCIF), Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) anfon llongopi gwiriedig o'u tystysgrif cymhwyster atom ni wrth adnewyddu am y tro cyntaf.

Cofnod o hyfforddiant: hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru

Rhaid i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig gadw cofnod o'u hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Rhaid i weithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig cwblhau 90 awr o hyfforddiant a dysgu yn ystod pob tair blynedd o gofrestru. Rydym ni'n argymhell eu bod yn diweddarau eu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn GCCarlein trwy gydol y cyfnod cofrestru, a rhaid iddyn nhw drafod yr hyfforddiant a dysgu gyda'u rheolwr cyn ei gyflwyno i ni. Rhaid i'r rheolwr cytuno cwblhâd 90 awr yn y cyfnod cofrestru presennol a bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol neu wedi cyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn gyffredinol.

Samplu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru

Bob blwyddyn rydym ni'n dewis sampl ar hap o gofnodion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru i'w gwirio o'r holl geisiadau rydym ni'n derbyn i adnewyddu cofrestriad.

Bydd y gwahoddiad i adnewyddu yn nodi'n glir a ddewiswyd rhywun fel rhan o'r sampl. Os caiff ei ddewis, bydd angen i'r unigolyn cofrestredig gael ei gofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru wedi'i wirio gan ei reolwr llinell. Os nad oes gan y person cofrestredig reolwr llinell (er enghraifft, oherwydd eu bod yn hunangyflogedig), gallant gyflwyno portffolio crynodeb na ellir ei ddychwelyd i ni, gan nodi sut maen nhw wedi bodloni eu gofynion hyfforddi a dysgu.

Gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal

cymdeithasol: Dylai gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu dewis i'w harchwilio argraffu eu cofnod hyfforddiant a'u trafod gyda'u rheolwr. Yna dylai'r rheolwr lofnodi ffurflen wirio i'w dychwelyd atom ni gyda'r cofnod hyfforddi. Gweler adran 2.5 *Sut mae dogfennau'n cael eu hanfon atom ni?*

Gweithwyr gofal cymdeithasol: Mae'n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol gael eu cais adnewyddu wedi'i gymeradwyo gan eu rheolwr. Os cânt eu dewis i'w harchwilio, dylent drafod gyda'u rheolwr a ddylai, fel rhan o'r broses ardstio ar-lein, gadarnhau bod hyn wedi'i ddilysu.

2.3 Pwy ddylai wirio?

Dylai gwiriwr fod yn llofnodwr cymeradwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae llofnodwyr cymeradwy yn bobl a enwebwyd gan gyflogwyr a phrifysgolion i weithio ochr yn ochr â ni i gefnogi'r broses gofrestru. Gall ymgeiswyr gweld rhestr o lofnodwyr ar gyfer eu gweithle neu le astudio yn GCCarlein wrth lenwi ffurflen gais neu ffurflen adnewyddu. Os nad yw gwiriwr yn llofnodwr, bydd angen i'r cymeradwywr gadarnhau ei fod/bod yn berson addas i wneud hyn.

Neu

Os yw'r ymgeisydd yn unigolyn cyfrifol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru neu heb ei gyflogu ym maes gofal cymdeithasol, gall unigolyn proffesiynol (er enghraifft, person cofrestredig) sydd wedi ei adnabod am o leiaf dwy flynedd, nad yw'n perthyn ac nad yw mewn perthynas bersonol â'r ymgeisydd, fod yn wiriwr. Gall gweithiwr cymdeithasol cofrestredig, er enghraifft, wirio dogfennau os yw'r unigolyn sy'n cymeradwyo'r cais neu adnewyddiad yn cadarnhau ei fod yn berson addas i wneud. Os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, ni ddylai'r gwiriwr fod yn gweithio i'r un sefydliad oni bai ei fod/bod mewn rôl uwch na'r ymgeisydd.

2.4 Beth mae angen i wirwyr ei wneud?

Tystysgrifau cymhwysedd a dogfennau adnabod

Rhaid i wirwyr weld y dogfennau gwreiddiol a sicrhau bod unrhyw lungopiâu yn gopiâu cywir.

Ar bob llungopi, bydd angen iddynt:

- ysgrifennu eu henw llawn, teitl eu swydd, eu cyfeiriad e-bost a'r dyddiad
- llofnodi eu henw
- ysgrifennu 'Rydw i wedi gweld y ddogfen wreiddiol, ac mae'n gopi cywir'

Ni fydd dogfennau anghyflawn heb y gwiriad cywir yn cael eu derbyn.

2.5 Sut mae dogfennau'n cael eu hanfon atom ni?

Gall ymgeisydd:

- Llwytho copiâu wedi'u sganio / lluniau o ddogfennau gwiriedig i gyfrif GCCarlein trwy ddefnyddio 'Llwytho dogfen' yn adran 'Fy Manylion Cyswllt'. Peidiwch lwytho dogfennau ar gyfer rhywun arall.
- Anfon copiâu wedi'u sganio / lluniau o ddogfennau gwiriedig trwy'r e-bost i cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru
- Anfon llungopiâu atom ni drwy'r post. Peidiwch **byth** ag anfon dogfennau gwreiddiol atom ni. Dylid gynnwys llythyr eglurhaol gydag enw a dyddiad geni i helpu i ni gysylltu'r dogfennau i'r cofnod.

